Mae Blaenau Gwent wedi sicrhau £6.2 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda 210 lle yn cynnwys darpariaeth feithrin a gofal plant drwy fodel egin/twf.

Fodd bynnag bydd costau refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn. Cafodd y ffigur islaw ei gyfrif yn seiliedig ar arwynebedd mewnol crynswth yr ysgol arfaethedig, uchafswm amcanestyniad poblogaeth disgyblion o 48 yn ei blwyddyn gyntaf. Amcangyfrifir y bydd gwariant refeniw o tua £232,000 yn 2023/24 (yn cynnwys cynnal a chadw adeilad, gwasanaeth gofalwr, glanhau, cynnal a chadw tiroedd, ynni ac ardrethi ac yn y blaen) ynghyd ag arweinyddiaeth a gweinyddu. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar sylfaen prisiau 2020/21. Byddai'r costau yn cael eu hariannu o'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

Caiff costau cludiant eu hariannu drwy gyllideb Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Rhagwelir na fyddai costau cludiant yn cynyddu'n sylweddol, gyda gostyngiad mewn costau cludiant i Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn gwrthbwyso unrhyw gostau ychwanegol a gaiff eu creu drwy ddatblygu'r ysgol newydd.

Trefniadau derbyn

Os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, Cyngor Blaenau Gwent fydd yn gweithredu fel Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol newydd. Bwriedir i'r ysgol newydd gael 210 o leoedd ysgol gynradd ynghyd â darpariaeth feithrin ar gyfer 24 lle llawn-amser (cyfwerth â 48 rhan-amser). Cynigir y bydd yr ysgol yn dechrau fel "ysgol egin" gyda'r myfyrwyr yn cael eu derbyn i ddechrau i'r dosbarthiadau derbyn a meithrin a fydd yn gwneud cais fel rhan o'r cylch derbyn arferol. Bydd gan y grŵp nifer derbyn o 24 ar gyfer pob grŵp blwyddyn a all dyfu wrth i'r ysgol dyfu.

Fel yr awdurdod derbyn ni all Cyngor Blaenau Gwent gynnig polisi gwarantu lleoedd yn neilltuol o gofio am ofynion deddfwriaeth y Llywodraeth ar ddosbarthiadau babanod sy'n cyfyngu maint dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen i ddim mwy na 30 disgybl ym mhob dosbarth. Er nad yw'n statudol, y maint "targed" ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 yw 30 hefyd. Os yw ceisiadau am dderbyn i ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd meini prawf a gyhoeddodd y cyngor ar gyfer pan mae mwy o geisiadau nag o leoedd yn weithredol.

Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad manwl o'r effaith ar Gydraddoldeb er mwyn asesu effaith y cynnig a phenderfyniadau ar y nodweddion gwarchodedig. Rhoddir crynodeb o'r effaith o fewn yr asesiad o sgrinio ar Gydraddoldeb sydd ar gael yn **Atodiad 1.**

Asesiadau Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned er mwyn asesu effaith y cynnig ar randdeiliaid a'r gymuned ehangach. Gweler **Atodiad 2** ar gyfer y crynodeb.

Mae'r cynnig yn ymwneud â datblygu darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol; felly disgwylir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mynediad i a darpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chyfleoedd ymgysylltu â rhieni a'r gymuned.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC):

Yn ei holl gyfrifoldebau corfforaethol mae'r Cyngor yn sicrhau y bydd bob amser yn ymgysylltu mewn modd cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Os gweithredir y cynnig hwn, cedwir saith nod greiddiol y Confensiwn:

Gan gyfeirio'n neilltuol at:

- **Erthygl 28** Mae gennych hawl i addysg.
- **Erthygl 29** Mae gennych hawl i addysg sy'n ceisio datblygu eich personoliaeth a'ch galluoedd i'r graddau mwyaf posibl ac sy'n eich annog i barchu hawliau a gwerthoedd pobl eraill ac i barchu'r amgylchedd.

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr Ymgynghoriad

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd y tîm Trawsnewid Addysg mewn partneriaeth gydag ysgolion, y tîm Cynhwysiant a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgynghori gyda disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn ogystal â gyda Fforwm Ieuenctid ac Uwch Gyngor Ysgolion Blaenau Gwent.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ystyried yn gyson ddigonolrwydd lleoedd i ateb y galw lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Lleoedd gwag/materion capasiti

Mae gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg gapasiti ar gyfer 215 disgybl. I ateb y galw cyfredol a'r dyfodol mae angen cynyddu capasiti ar gyfer cynllun tymor canol i hirdymor y Cyngor. Os yw'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn symud ymlaen bydd hyn yn galluogi cynnig mwy o leoedd yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn unol â datblygu'r cyfleusterau gofal plant a gynigir.

Yn y tymor byr cymharol ychydig o effaith fydd ar ddarpariaeth gynradd (mae tybiaeth y bydd tua 3 plentyn o bob un o ddalgylchoedd yr ysgol yn gwneud cais am fynychu) yn ardaloedd Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr. Fodd bynnag, yn y tymor hir gyda'r nifer yn cynyddu flwyddyn ar flwyddyn i fynychu'r ddarpariaeth egin cyfrwng Cymraeg, bydd effaith yn seiliedig ar brosiectau cyfredol.

Tybir mai ar Ysgol Gyfun Tredegar fyddai'r effaith mwyaf os yw 24 disgybl yn dewis addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg fel canlyniad i fynychu'r ysgol egin cyfrwng Cymraeg.

Costau cyfalaf/derbyniadau cyfalaf

Caiff amcangyfrif costau cyfalaf y prosiect eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac maent tua £6.2m. Ni ddisgwylir bod unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynllun, byddai'r cyngor yn ildio derbyniad cyfalaf yng nghyswllt y tir y bydd yn ei ddefnyddio ar gyfer yr adeilad.

Datblygiadau tai

Ar gyfartaledd, yn y 5 mlynedd ddiwethaf, cafodd 90 tŷ eu hadeiladu ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn. Disgwylir y bydd y lefel yma o dwf yn parhau. Mae gan y darpar gartrefi hyn naill ai ganiatâd cynllunio yn barod, maent yn ceisio cytundeb cyfreithiol neu maent wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Bydd mwy o blant yn byw mewn tai newydd yn ogystal â mwy o blant yn

byw mewn tai sydd eisoes yn bodoli. Felly bydd lleoedd ysgol ychwanegol yn gyffredinol mewn cynlluniau presennol yn tyfu. Mae **Ffigur 2** yn dangos y nifer o ddatblygiadau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd.

	Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Tredegar** yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd.					Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Ebwy Fawr** yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd.					Dynodir y ffigurau dilynol ar gyfer **Cwm Ebwy Fach** yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n edrych ar amserlen 5 mlynedd.				
	2020	2021	2022	2023	2024	2020	2021	2022	2023	2024	2020	2021	2022	2023	2024
Cymdeithasau Tai:	23	18	0	0		13	13	33	0		0	16	20	0	0
Tai Sector Preifat	8	7	6	6		34	104	92	32		3	53	40	17	12
Cyfanswm	**31**	**25**	**6**	**6**		**47**	**117**	**125**	**32**		**3**	**69**	**60**	**17**	**12**

I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar y dudalen ddilynol ar wefan Blaenau Gwent:
https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/ldp-allocations/

Dengys y data uchod fod 472 o dai yn cael eu cynllunio rhwng 2020 – 2024 gan ddangos neu gynllunio cynnydd yn nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn mewn tai presennol. Fodd bynnag, byddai darpariaeth ar gyfer y boblogaeth o fewn yr ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd presennol heb fawr neu ddim effaith ar yr ysgolion arbennig.

Adnoddau Dynol

Byddai agor darpariaeth newydd yn sicrhau cyfleoedd i gynyddu'r cohort staff ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff i gael hyfforddiant yn y Gymraeg drwy wahanol lwybrau. Os cytunir ar y cynnig, sefydlir grŵp i edrych ar y gofynion staffio a'r model llywodraethiant yn fwy manwl.

Partneriaethau

Mae rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem' yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais yn sut y gallwn wella Blaenau Gwent ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ei flwyddyn gyntaf mae'r grŵp eisoes wedi cysylltu gyda dros 1,500 o bobl o bob rhan o Flaenau Gwent i ganfod sut hoffent i'r ardal fod yn y dyfodol. Defnyddiwyd eu hadborth i'n helpu i lunio nifer o flaenoriaethau y byddwn yn gweithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'n helpu i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.

Mae ein Cynllun Llesiant yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer gwella llesiant ym Mlaenau Gwent a chyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Datblygwyd y 5 amcan yn y cynllun i adlewyrchu bod Blaenau Gwent eisiau

- **Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb**
- **Cymunedau diogel a chyfeillgar**
- **Gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol**
- **Llunio llwybrau newydd i ffyniant**
- **Annog ffyrdd iach o fyw**

Mae'r amcanion llesiant hyn yn rhai a ystyriwn y gallent yn wir sicrhau newid, y mae mwyaf o frys amdanynt ac y dengys y dystiolaeth eu bod angen grym cyfunol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflenwi a gwella llesiant.

Adran 7: Gwerthuso'r Trefniadau Presennol

Canlyniadau diweddaraf Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolwg yw dynodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel y gallant wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf Estyn yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn 2020, a dangosir y canlyniadau yn y tabl islaw:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Da
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Da
Profiadau addysgu a dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Os caiff ysgol ddyfarniad digonol neu anfoddhaol, bydd Estyn neu'r awdurdod lleol yn ei monitro nes y bernir fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei thynnu o'r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant. Drwyddi draw, mae'r asesiad hwn yn ganlyniad da ar gyfer yr ysgol gyda dim ond 4 argymhelliad am welliannau:

- **A1** Sicrhau bod yr addysgu a'r profiadau dysgu yn datblygu annibyniaeth holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gyson
- **A2** Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol
- **A3** Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf

Rhoddir detholiad o sylwadau o'r arolwg diweddaraf islaw:

- Ychydig iawn ohonynt sy'n medru siarad Cymraeg cyn cychwyn. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn gadarn yn yr ysgol ac yn sylfaen effeithiol ar gyfer cynnal ethos gofalgar a chefnogol. Mae bron bob disgybl yn siarad gyda balchder am eu hysgol.
- Mae'r disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw yng ngwaith strategol yr ysgol. Mae aelodau'r ystod eang o bwyllgorau plant yn cael dylanwad pwrpasol ar wahanol agweddau o'r ysgol.
- Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o hunanwerthuso parhaus.

Ansawdd a safonau mewn Addysg

Caiff ansawdd a safonau ysgolion Blaenau Gwent eu monitro gan y Cyngor, yn unol â'r system genedlaethol o gategoreiddio ysgolion a chanllawiau yng nghyswllt ysgolion sy'n achosi consyrn. Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru a chafodd ei sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Caiff safonau ac ansawdd darpariaeth hefyd eu monitro'n gyfnodol drwy Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer arolygu ysgolion.

Ers 2012, mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i gefnogi gwella ysgolion Blaenau Gwent. Mae EAS yn darparu cymorth gwella ysgolion i'r cynghorau dilynol: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Fel rhan o'r cynnig hwn bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda EAS i sicrhau lefelau uwch o gymorth i'r ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau fod cefnogaeth briodol yn ei lle yn ystod y cyfnod pontio.

Safonau: Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y safonau yn yr ysgol Gymraeg yr effeithir arnynt. Bydd adeilad yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn derbyn y lefel briodol o her a chefnogaeth yn unol â'r trefniadau yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Llesiant ac agweddau at ddysgu: Disgwylir y bydd darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion yn yr ysgol gynradd egin Gymraeg a gynigir yn galluogi mwy o blant i fynychu'r ysgol yn eu cymuned leol. Bydd creu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cynyddu dewis rhieni ac yn darparu addysg Gymraeg yn nes adref ar gyfer plant sy'n byw yn Nhredegar a chymoedd Sirhywi ac Ebwy Fawr (Gogledd). Mae llesiant disgyblion yn flaenoriaeth ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg a chaiff hynny ei fonitro a'i adrodd. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar lesiant ac agweddau at ddysgu yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Bydd yr addysgu yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol gyda'r Gymraeg yn iaith addysgu a dysgu. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol eraill yr effeithir arni.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn gymuned ofalgar a chymhwysol sy'n darparu gofal a chymorth ansawdd uchel i bob disgybl, bydd hyn yn parhau yn yr ysgol newydd. Mae'r holl staff yn ymroddedig i ddynodi anghenion disgyblion ar gam cynnar a rhoi cefnogaeth werthfawr iddynt. Caiff adeilad yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Nhredegar/Cwm Sirhywi ei chefnogi gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg, y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad ansawdd uchel. Ni fydd unrhyw newid mewn gofal, cymorth ac arweiniad yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Mae gan bennaeth ac arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir a chadarn i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu lwyddiannus drwy ddarparu addysg a gofal ansawdd uchel i bob disgybl, bydd hyn yn parhau yn y gosodiad ysgol newydd. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio'n gadarn ar godi safonau, datblygu balchder at y Gymraeg, a llesiant disgyblion. Mae tîm arweinyddiaeth effeithlon i gefnogi'r gwaith o osod cyfeiriad strategol penderfynol ar gyfer holl waith yr ysgol. Ni fydd unrhyw newid yn sut y bydd ansawdd ac effeithlonrwydd arweinwyr a rheolwyr yn perfformio. Ar safle'r ysgol egin Gymraeg arfaethedig, bydd tîm arweinyddiaeth yr ysgol yn derbyn cymorth ac arweiniad gan y Cyngor a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau bod arfer gorau mewn arweinyddiaeth a rheoli yn parhau ac yn cael eu defnyddio.

Effaith y cynnig

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, caiff yr effaith ar Ysgol Gymraeg Bro Helyg ei liniaru i raddau helaeth gan y bwriedir sefydlu model rhannu llywodraethiant ar draws y ddwy ysgol. Bydd yn parhau i ddarparu amgylchedd dysgu ansawdd uchel i gefnogi gwell canlyniadau ar gyfer pob dysgwr. Bydd y cynnig yn sicrhau y caiff y safonau, sydd eisoes yn rhagorol, eu trosglwyddo a'u datblygu ymhellach.

Fel y soniwyd yn flaenorol (Tudalen 13) mae gan dwf yr ysgol y potensial i effeithio ar ddarpariaeth gynradd ac uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg, ynghyd ag ysgolion cynradd ffydd. Bydd yr effaith mwyaf ar ysgolion cynradd yn 2029/30, gyda'r golled fwyaf o nifer disgyblion – os yn llwyr o fewn y boblogaeth disgyblion bresennol/disgwyliedig byddai hyn tua 24-30 disgybl ar draws yr ysgolion cynradd a fanylir ar dudalen 20. Mae hefyd effaith bosibl ar gyfer darpariaeth uwchradd o hynny ymlaen, gyda'r un uchafswm lefel o golled.

Adran 8: Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd

Mae'r tabl islaw'n rhoi manylion categori, iaith ac ystod oedran Ysgol Gymraeg Bro Helyg

Trosolwg o'r Cynnig am Ysgol Newydd	
Nifer derbyn a threfniadau	Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithredu fel yr awdurdod derbyn ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol newydd. Y niferoedd derbyn o 2023 fydd: • Meithrin:24 • Dosbarth Derbyn:24 Caiff derbyn ei reoli yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Feithrin ac Addysg Statudol (2022/23).
Ystod oedran	3-11 oed
Lleoedd disgyblion	Y rhifau a gaiff eu derbyn fydd • Rhifau Ysgol Gymraeg Bro Helyg Blaenau o fis Mehefin 2020 fydd: 150 • Rhifau Ysgol Gymraeg Bro Helyg Sirhywi o fis Medi 2023 fydd: 48
Capasiti'r ysgol newydd	Darpariaeth egin Tredegar 210 lle
Lleoliad	Opsiwn a ffefrir: Chartist Way, Sirhywi, Tredegar.
Categori ac iaith yr ysgol	Ysgol Gynradd Gymraeg a gynhelir
Rhestr llety	I'w benderfynu yn dilyn yr ymgynghoriad
Trefniadau a pholisi cludiant	Caiff cludiant ei gyflwyno yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac ÔI 16 2019 Blaenau Gwent. Gweler Adran 1 i gael mwy o wybodaeth.
Categori ysgol (2019)	Dim yn berthnasol
Canlyniadau Arolwg Estyn	https://www.estyn.gov.wales/provider/6772307 Chwefror 2020
Categori Cyflwr Adeilad	B
Categori Addasrwydd Adeilad	C

Rhestr cyfleusterau a ddarperir dan y cynnig hwn

- Meithrinfa ac ystafelloedd hylendid cysylltiedig ac ystafell tawelu
- 5 ystafell ddosbarth safonol Cyfnod Sylfaen
- 2 ystafell ddosbarth Cyfnod Allweddol 2

- Gofodau addysgu hyblyg
- Neuadd fwyta/gwasanaethau a chegin/man arlwyo
- Swyddfeydd y pennaeth a gweinyddol
- Ystafell staff
- Strydoedd addysgu
- Ystafell dawelu
- Ardaloedd chwarae/dysgu dan orchudd
- Maes chwarae ac ardal gymdeithasol feddal (glaswellt)

Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr un lleoliad ar gyfer 28 o blant

Dalgylch ysgol

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Helyg a'r ysgol egin a gynigir yn dal i wasanaethu Blaenau Gwent i gyd, gyda ffocws yr ysgol egin ar ddisgyblion o ardal Tredegar, Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr.

Trefniadau trosglwyddo

Ni fydd unrhyw newid ar gyfer disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblon sy'n gwneud cais am le ysgol yn sesiwn academaidd 2023/24. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Gymraeg Bro Helyg a phartneriaid Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i sicrhau fod prosesau cynllunio a throsglwyddo effeithlon yn eu lle.

DRAFT

Adran 9: Ffurflen Ymgynghori

Holiadur Ymgynghori

Rhowch eich sylwadau os gwelwch yn dda ar y cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi drwy fodel Egin/Twf.

Gallech hefyd ddymuno nodi pa un o'r dilynol sy'n adlewyrchu eich barn:

Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llawn	
Rwy'n cefnogi peth o'r cynnig	
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	

Eich sylwadau:

Enw: _____ Dyddiad: _____

E-bost: _____

Cyfeiriad: _____ Cod Post: _____

Nodwch os gwelwch yn dda os ydych yn:

Cynradd: Athro neu Athrawes/Staff Ysgol heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl /Preswylydd Lleol / Arall (noder) _____

Uwchradd: Athro neu Athrawes/Staff Ysgol heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl /Preswylydd Lleol / Arall (noder) _____

Diolch am eich amser a'ch cyfraniad at yr ymgynghoriad. Caiff eich barn, sylwadau ac ymatebion eu cofnodi a'u hadrodd i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor yn yr Adroddiad Canlyniad Ymgynghoriad.

Datodwch y ffurflen hon a'i dychwelyd drwy anfon E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Rhaid derbyn pob sylwadau erbyn 5:00pm ddydd Gwener 29 Ionawr 2021 fan bellaf

DRAFT

Ffurflen Sgrinio

Gwybodaeth Gyswllt Maes Gwasanaeth: *(Llenwch bob maes os gwelwch yn dda)*			
Enw'r Person a Lenwodd y Ffurflen: *Sharon Northall*	**Adran/Maes Gwasanaeth:** *Cyfarwyddiaeth Addysg*	**Rheolwr Gwasanaeth:** *Claire Gardner*	**Dyddiad:** *30/11/2020*
Manylion Cyswllt: *sharon.northall@blaenau-gwent.gov.uk*		**Teitl y Polisi Arfaethedig:** *N/A*	
Gwybodaeth Polisi			
A ydych yn sgrinio am yr effaith ar Gydraddoldeb ar bolisi newydd neu bolisi presennol: N/A Dewiswch eitem.		**Sylwadau:** Mae'r sgrinio hwn mewn cysylltiad â datblygu Ysgol Gynradd newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi	
Beth yw nodau ac amcanion y polisi: *Nid oes unrhyw ddatblygiadau polisi cysylltiedig, fodd bynnag mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gynyddu darpariaeth Addysg a Gofal Plant cyfrwng Cymraeg o fewn y fwrdeistref.*			

Asesiad Effaith y Polisi/Ymarfer ar Nodweddion Gwarchodedig

Nodwedd Gwarchodedig	Effaith Gadarnhaol	Effaith Negyddol	Effaith Niwtral	Rhowch resymau ac unrhyw liniaru sydd ei angen
Oed (plant, pobl ifanc, yr henoed)	☒	☐	☐	Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar bob oed, drwy gynnig mwy o gyfleoedd iddynt gael eu haddysgu, dysgu a chael mynediad i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
Anabledd	☐	☐	☒	
Rhywedd	☐	☐	☒	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	☐	☐	☒	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	☐	☐	☒	
Hil	☐	☐	☒	

DRAFT

Crefydd a Chredo	☐	☐	☒	
Rhyw (gwryw/benyw)	☒	☐	☒	*Cliciwch yma i ychwanegu geiriad*
Cyfeiriadedd Rhywiol	☐	☐	☒	*Cliciwch yma i ychwanegu geiriad*

Dangosyddion Ychwanegol o Risg Cydraddoldeb		
Nodwch os cedwch fod gan y polisi/ymarfer hwn risg uchel, canolig neu isel fel sy'n dilyn (1 = Dim Effaith; 2 = Effaith Fach; 3 = Effaith Bosibl; 4 = Effaith Tebygol; 5 = Effaith Anghydraddoldeb)		
Plant a/neu bobl ifanc hyd at 18 oed	1	*Nodwch yma unrhyw ddulliau y bwriedir iddynt liniaru'r risgiau hyn* *Cliciwch yma i ychwanegu geiriad*
Deinameg cymuned benodol	1	*Nodwch unrhyw ddulliau y bwriedir iddynt liniaru'r risgiau hyn. Bydd mwy o opsiynau i rieni eu hystyried yn seiliedig ar ysgol eu plentyn: cyfrwng Saesneg, Ffydd a chyfrwng Cymraeg*

Cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb			
Nodwch islaw os/sut y bydd eich cynnig yn cyfrannu at yr Amcanion Cydraddoldeb.			
Amcan 1 – Gwneud cydraddoldeb yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaeth	Bydd ☒	Na ☐	
Amcan 2 – Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o ac yn deall yr agenda cydraddoldeb	Bydd ☒	Na ☐	Cliciwch yma i ychwanegu geiriad
Amcan 3 – Gwneud ein gorau i ymgysylltu, diogelu a chefnogi'r bobl hynny yn ein cymuned sydd fwyaf ei angen	Bydd ☒	Na ☐	Cliciwch yma i ychwanegu geiriad
Amcan 4 – Hyrwyddo dealltwriaeth a derbyniad o amrywiaeth o fewn ein cymunedau	Bydd ☒	Na ☐	
Tystiolaeth ac Ymgynghoriad			
A ydych wedi cynnal unrhyw weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu gyda grwpiau gwarchodedig i liniaru unrhyw risgiau o wahaniaeth	Do ☐	Na ☐	*Disgrifiwch y gweithgareddau ymgysylltu a wnaed fel rhan o'r broses* Cynhelir ymgynghoriad gyda phob rhanddeiliad perthnasol er mwyn casglu eu sylwadau.
Nodwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol a fedrai ddangos yr ystyriwyd yr anghenion i grwpiau gwarchodedig yng nghyswllt y cynnig neilltuol hwn			

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith Gymraeg

Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi

Tachwedd 2020

DRAFT

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Pe byddai'r Cyngor yn dymuno gweithredu'r cynnig ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad ffurfiol, cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned.

2. Cyd-destun cenedlaethol

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru Tachwedd 2018 (f2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fod angen i awdurdodau lleol ystyried yr effaith y gall y cynigion ei gael ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol drwy gynnal asesiad effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg drwy asesiad effaith iaith, os yw unrhyw ysgol yr effeithir arni yn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Cyd-destun lleol

Mae Blaenau Gwent yn ymroddedig i foderneiddio addysg, gan sicrhau fod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael adeiladau modern ac addas i'r diben sy'n diwallu anghenion addysg fodern. Ym mis Ebrill 2017 cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Addysg y 'Weledigaeth ar gyfer Addysg' i sicrhau cyflawniad a llesiant rhagorol i bob dysgwyr drwy system partneriaeth hunan-wella dan arweiniad yr ysgolion. Mae'r Cyngor yn anelu cyflenwi pum blaenoriaeth, gyda'r bumed blaenoriaeth yn cyfeirio at wella ansawdd ein stad ysgolion.

Effaith ar y gymuned

Fel rhan o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori, mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynnal Asesiad Effaith ar y Gymuned a fanylir islaw, wrth ystyried y cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi.

a. Nifer disgyblion yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi

Mae 1,913 disgybl o oedran ysgol statudol yn mynychu ysgolion yn Nhredegar/Cwm Sirhywi, gyda 1,247 ohonynt yn ddisgyblion cynradd a 666 yn ddisgyblion uwchradd. Mae 58% (724) o'r boblogaeth oedran ysgolion cynradd yn mynychu eu hysgol dalgylch, mae'r canran ychydig yn uwch o fewn Ysgol Gyfun Tredegar gyda 94% (622) o'r dalgylch yn mynychu. Mae'r 6% arall (44) o ddisgyblion yn byw tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi.

Gan fod y cynnig yn anelu i ddatblygu'r ysgol drwy fodel egin/twf, cafodd cyfrifiadau eu gwneud yn defnyddio data meithrin, dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 presennol.

<u>Data Meithrin</u>

Allan o'r 148 o ddisgyblion oed meithrin, mae 62% (92) o ddisgyblion yn mynychu eu hysgol dalgylch, 32% (48) o ddisgyblion yn mynychu ysgol yn Nhredegar heb fod eu hysgol dalgylch gyda'r 6% arall yn byw y tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf yng Nglynebwy a/neu allan o'r fwrdeistref).

Data Dosbarth Derbyn
Allan o'r 166 o ddisgyblion oed dosbarth derbyn, mae 59% (99) o ddisgyblion yn mynychu eu hysgol dalgylch, mae 35% (57) o ddisgyblion yn mynychu ysgol yn Nhredegar nad yw eu hysgol dalgylch gyda'r 6% arall (10) o ddisgyblion yn byw tu allan i ardal Tredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf Glynebwy a/neu allan o'r fwrdeistref).

Data Blwyddyn 1
Allan o 176 disgybl Blwyddyn 1 mae 56.5% (101) disgybl yn mynychu eu hysgol dalgylch o fewn Tredegar/Sirhywi. Mae 38% (68) o ddisgyblion yn mynychu ysgol yn Nhredegar nad yw eu hysgol dalgylch ac mae gweddill y disgyblion, 5.5% (7) yn byw tu allan i Dredegar/Cwm Sirhywi (yn bennaf Glynebwy a/neu allan o'r fwrdeistref).

b. Pa ysgolion y mae'r cynnig hwn yn debygol o effeithio arnynt?
Cynhaliwyd gwerthusiad dechreuol i asesu pa ysgolion cynradd y byddai'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a pha rai yr effeithid arnynt yn anuniongyrchol yn ardal Tredegar/Sirhywi a gogledd Ebwy Fawr, pe datblygid y cynnig am ysgol newydd. Mae tybiaeth mai'r ysgolion yr effeithid arnynt fyddai:

Effeithio yn uniongyrchol – gan mai dyma'r unig ysgol gynradd Gymraeg ar hyn o bryd:
Ebwy Fach (Gogledd))
- Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau NP13 1YL

Effeithio yn anuniongyrchol - gyda symud disgyblion posibl fel canlyniad i ddewis rhieni:
Ysgolion cyfrwng Saesneg a Ffydd yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi
- Ysgol Gynradd Bryn Bach, Heol Merthyr, Tredegar NP22 3RX
- Ysgol Gynradd Deighton, Stockton Way, Tredegar NP22 3ES
- Ysgol Gynradd Georgetown, Heol Oakfield, Tredegar, NP22 4LP
- Ysgol Gynradd Glanhywi, Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 4AQ

Ebwy Fawr (Gogledd)
- Ysgol Gynradd Glyncoed, Badminton Grove, Glynebwy, NP23 5UL
- Ysgol Gynradd Willowtown, Stryd Brynheulog, Glyn Ebwy NP23 6NJ
- Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Seintiau, Heol-yr-Ysgol, Glynebwy, NP23 6QP

Ysgol Uwchradd Gymraeg
- Ysgol Gyfun Gwynllyw, Heol Folly, Trefddyn Catwg, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 8JD

Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys:
- Disgyblion yn symud i'r ardal o awdurdodau cyfagos sy'n ffinio ar Dredegar/Cwm Sirhywi.
- Disgyblion newydd fel canlyniad i ddatblygiadau tai a throsglwyddo o fewn y flwyddyn.

c. Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio yn gysylltiedig â mynychu ysgol arall o'r un categori ieithyddol

Pe na byddai'r cynnig hwn yn symud ymlaen, ar gyfer rhieni plant y mae addysg Gymraeg yn ddewis cyntaf iddynt, mae'n debyg y byddai'r amser teithio i ddisgyblion ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn fwy na 50 munud.

Ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd ar ôl ysgol, mae ystyriaethau cludiant a mynediad ychwanegol i rieni os nad oes gan rhieni fynediad i'w cerbyd eu hunain. Yn yr achos hwn byddai angen i rieni ddefnyddio naill ai drafnidiaeth gyhoeddus a/neu wasanaethau tacsi. Nid oes unrhyw gysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol i Ysgol Gymraeg Bro Helyg drwy naill ai Dredegar na Glynebwy. Felly, byddai'n rhaid i rieni wneud 3 newid fel sy'n dilyn o Dredegar a 2 o Lynebwy:

- Tredegar i Lynebwy
- Glynebwy i Frynmawr
- Brynmawr i Nantyglo

Byddai wedyn angen i rieni a disgyblion gerdded am o leiaf 15 munud i gael mynediad diogel i'r ysgol o'r safle bws agosaf. Mae'r ddwy daith yn debyg o gymryd mwy na 1 awr bob ffordd, gydag amserau teithio yn amrywiol ac yn anghyson.

Felly mae'n debyg y byddai mynediad a chymryd rhan mewn gweithgaredd yn yr ysgol tu allan i'r oriau yn anos pe na byddai'r cynnig yn mynd rhagddo. Mae llwybrau cerdded a seiclo o nifer o ardaloedd ledled y fwrdeistref yn gyfyngedig.

Mae'r safle a ffefrir, Chartist Way, ar lwybr bws sy'n bodoli eisoes a byddai'n ei wneud yn fwy hygyrch ar gyfer rhieni sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Effaith ar y Gymraeg

Cymraeg fyddai categori iaith yr ysgol gynradd egin a gynigir. Yr unig ysgol gynradd Gymraeg arall ym Mlaenau Gwent yw Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy greu darpariaeth gofal plant, addysg a chymunedol ychwanegol.

Ysgol	**Gweithgareddau ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen arall**	**A yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau ar gyfer aelodau'r gymuned i ddysgu'r Gymraeg?**
Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Helyg	• Ysgol: clybiau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion CA2 ar ddyddiau Mawrth, Mercher ac Iau – Celf, Chwaraeon, Drama, Cerddoriaeth, TGCh • Mae'r Urdd yn cynnal clwb ar ddyddiau Llun – gwahanol weithgareddau. • Mae'r Fenter Iaith yn cynnal clwb amser cinio ar ddyddiau Gwener – gwahanol weithgareddau gyda chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Chwaraeon yr Urdd a mynd â phlant i Ganolfan Llangrannog ddwywaith y flwyddyn.	Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a sesiynau ar gyfer rhieni, teuluoedd a phreswylwyr y gellid eu hymestyn a'u datblygu

	• Mae'r ysgol yn cynnal clybiau cerddoriaeth pop Gymraeg a gwahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru e.e. Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg ym mis Chwefror, Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth, Caffi Cymraeg bob tymor pan wahoddir rhieni a'r gymuned i fore coffi. Caiff sesiynau TED hefyd eu cynnal lle mae rhieni newydd yn dysgu caneuon a geirfa Gymraeg fydd yn eu helpu i gefnogi eu plant gyda'r iaith e.e. mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau coginio, sesiynau darllen a sesiynau gyda themâu eraill yn ystod y flwyddyn. • Yn ystod y sesiynau Caffi Cymraeg a TED, caiff y dysgu ei arwain gan y Criw Cymraeg (disgyblion sy'n arwain ar y Siarter Iaith) • Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda dysgwyr Cymraeg Tai Calon a hefyd orsaf radio BGfm • Y datblygiad diweddaraf yw bod yr ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r Criw Cymraeg o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol (Ystruth, Coed-y-Garn a Blaen-y-Cwm) sy'n ymweld i gynllunio gweithgareddau tebyg i ddisgo Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg a gweld sut mae ein Caffi Cymraeg yn gweithio. Mae ysgolion eraill tebyg i Ysgol Gynradd Deighton wedi ymweld ar gyfer cefnogaeth a gweithgareddau i wella dysgu'r iaith..	ymhellach os yw'r cynnig am yr ysgol yn mynd yn ei flaen. Mae Coleg Gwent yn gweithredu fel asiantaeth partner yn cyflwyno cyrsiau i bobl ifanc ac oedolion. Pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, byddai hyn yn rhoi cyfle i gynyddu darpariaeth gymunedol ac ymgysylltu drwy'r Coleg.

d. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (WESP) a Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ei asiant cyflenwi

Mae Blaenau Gwent drwy ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (WESP) ynghyd â Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn ymroddedig i ehangu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob ysgol ym Mlaenau Gwent yn addysgu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgu a hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg o fewn yr ardal.

Rhestr Wirio Ymgynghoriad o'r cod trefniadaeth ysgolion f2

Rhaid i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion statudol gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Rhaid i gopïau caled for ar gael ar gais. Dylid ystyried cyhoeddi mewn fformatau eraill os bydd hygyrchedd yn peri pryder.

Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a rhaid rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Ni ddylid cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn ysgol sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).

Rhaid anfon y llythyr neu e-bost i'r canlynol ynghylch y ddogfen ymgynghori, gan roi gwybod iddynt bod modd iddynt ofyn am gopi caled (ond gweler hefyd adran 3 ar Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc):

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol (gan gynnwys y rheini yn Lloegr lle bo'n briodol) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA dynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, neu unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg..

Yn achos pob cynnig, rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Disgrifiad a manteision • disgrifiad manwl o'r sefyllfa bresennol, sy'n amlinellu cryfderau a gwendidau a'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen newid; • disgrifiad manwl o'r cynnig neu gynigion (gall cynigydd ymgynghori ar fwy nag un cynnig posibl), yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynigion ac unrhyw drefniadau interim arfaethedig y gellid bod angen eu gweithredu. Wrth ddisgrifio'r cynigion, fel arfer dylai cynigwyr gyfeirio atynt gan ddefnyddio'r termau a amlinellir yn y Cod hwn (e.e. 'cau ysgolion'), ond os bydd dwy ysgol bresennol neu fwy yn uno'n un ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle (ee os bydd hen ysgol babanod ac ysgol yn uno i greu ysgol gynradd), gellid defnyddio'r term 'uno'; • manteision disgwyliedig y cynigion ac anfanteision o gymharu â'r sefyllfa bresennol; • unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion ac unrhyw fesurau sy'n ofynnol i reoli'r rhain; • disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a'r rhesymau dros eu gwrthod (ond gweler para 1.8 i gael gwybod am y gofynion pellach o ran cau ysgol wledig); • gwybodaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio gan ddysgwyr, pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu a'r effaith ar hygyrchedd y ddarpariaeth..	
Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt • enwau, lleoliadau a chategorïau (h.y. cymunedol, gwirfoddol a reolir, gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig), pob ysgol bresennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni (er enghraifft, yn achos cynnig i gau ysgol, dylid rhoi gwybodaeth am yr holl ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y bydd disgyblion yn dymuno trosglwyddo iddynt; • nifer y disgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgolion blynyddol blaenorol ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt; • rhagolygon pum mlynedd o'r disgyblion ar y gofrestr ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt a hynny ar hyn o bryd (h.y. yn seiliedig ar y ffordd y mae'r ysgolion wedi'u trefnu ar hyn o bryd) a phe gweithredid y cynigion; • capasiti lleoedd disgyblion ymhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt; • nifer y lleoedd meithrin ymhob un o'r ysgolion y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt; • gwybodaeth am ansawdd adeiladau ac ystafelloedd ym mhob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys cyfeiriad at arolwg diweddaraf yr awdurdod lleol o gyflwr yr ysgol, gan ddefnyddio categorïau'r Arolwg Ysgolion gwreiddiol ar gyfer yr 21ain ganrif; • cyfrwng iaith pob un o'r ysgolion presennol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt (gan ddefnyddio Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 23/2007 "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg").	

Ansawdd a safonau mewn addysg • dadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd y canlynol (cyfeirir at bum maes arolygu perthnasol Estyn mewn cromfachau): a) safonau (safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau); llesiant ac agweddau at ddysgu; b) profiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu; ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm a'r ddarpariaeth sgiliau); c) arweiniad a chymorth gofal (tracio, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a gwarchod disgyblion); d) arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol a defnyddio adnoddau) yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun cynigion ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni/arno. • gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno; • effaith debygol y cynigion ar allu ysgol neu ysgolion sy'n destun cynigion neu unrhyw ysgol arall sy'n debygol o gael ei heffeithio i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol.	
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) • i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd. • sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.	
Cyllid • costau ariannol ac arbedion y cynnig ac unrhyw arbedion posibl (gan gynnwys, lle bo'n briodol, y costau presennol yn ôl disgybl a'r costau a amcanestynnir unwaith y gweithredid y cynnig) – cyfalaf a rheolaidd (gan gynnwys costau cludiant a staff yr ysgol); • ffynonellau cyllid cyfalaf; • sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion costau rheolaidd eu defnyddio.	
Tir ac adeiladau • manylion unrhyw dir neu adeiladau y gellid bod angen eu trosglwyddo neu eu gwaredu o ganlyniad i'r cynigion.	
Manylion ymgynghori • manylion o ran sut y gall pobl leisio eu barn gan gynnwys y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn y sylwadau hynny; • manylion o ran sut y gall pobl ofyn cwestiynau eraill am y cynigion neu awgrymu opsiynau eraill; • datganiad i'r perwyl na chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif yn wrthwynebiadau i'r cynnig ac mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad y gall gwrthwynebiadau gael eu cofrestru; • esboniad o'r broses gyhoeddi, sut i gyflwyno gwrthwynebiadau a sut y penderfynir ar gynigion cyhoeddedig; • gofod i ymateb i'r ymgynghoriad; • cyfle i'r rheini yr ymgynghorir â nhw i nodi eu dymuniad i gael eu hysbysu pan gaiff yr adroddiad r yr ymgynghoriad ei gyhoeddi. Pan fydd cynigion yn cynnwys sefydlu ysgol newydd, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori hefyd: Ar gyfer yr ysgol newydd: a. y nifer derbyn a'r trefniadau derbyn arfaethedig; b. ystod oedran; c. capasiti lleoedd disgyblion a/neu nifer y lleoedd meithrin; d. lleoliad; e. categori (h.y. cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir neu wirfoddol a reolir)); f. categori iaith (yn ôl y diffiniad yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007); g. manylion yr adeiladau a'r ystafelloedd arfaethedig, gan gynnwys rhestr o'r cyfleusterau arfaethedig;	

h. yn achos uned adnoddau anghenion addysgol arbennig mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion arbennig y disgyblion y cynigir eu derbyn;
i. trefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol (gan gynnwys unrhyw drefniadau pontio a pholisi cludiant yr awdurdod lleol.

Pan fydd cynigion yn cynnwys cau ysgol, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- manylion unrhyw opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried yn lle cau'r ysgol a'r rhesymau dros beidio â bwrw ati â'r rhain (ond gweler para 1.8 i gael gofynion pellach mewn perthynas â chau ysgol wledig);
- effaith y cynigion ar y gymuned leol, yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwir mewn cynigion;

yn achos darpariaeth amgen:
a. enw a lleoliad y ddarpariaeth amgen arfaethedig;
b. cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r ysgol neu ysgolion amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr opsiwn amgen;
c. trefniadau derbyn yn yr ysgol amgen arfaethedig;
d. a cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni a'r dewis arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion yn y dewis amgen;
e. gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sydd ei angen i sicrhau y gall plant sy'n trosglwyddo gael lle yn y ddarpariaeth amgen;
f. yr effaith ar amseroedd teithio disgyblion i'r ysgol ac ar gostau cludiant i'r ysgol;
g. gwybodaeth am lwybrau cerdded sydd ar gael i'r ddarpariaeth amgen;
h. cyfrwng iaith yr ysgol amgen arfaethedig..

Pan fo cynigion yn ymwneud â chau ysgol wledig a phenderfyniad wedi'i wneud i ymgynghori ar y cynnid, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori ynghyd â'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar gyfer pob cynnig:

- Y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol (h.y. disgrifiad o'r rif heriau sy'n wynebu'r ysgol ac y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt);
- Yr opsiynau eraill a nodwyd ac asesiad o'r opsiynau hyn, gan gynnwys:
    - yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg,
    - yr effaith debygol ar y gymuned;
    - yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i'r rheini yr ymgynghorir â nhw y gallant:

- wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd gan y cynigydd yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig;
- awgrymu opsiynau eraill a fyddai'n goresgyn y problemau sydd y tu ôl i'r cynnig i gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd am geisio ymateb iddynt).

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth feithrin, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- digonolrwydd yr adeiladau a'r ystafelloedd a gynigir, yn y dosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin;
- a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;
- lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin, ee darpariaeth Gymraeg neu ddarpariaeth â chymeriad crefyddol;
- effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;
- i ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- a fydd cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 19 oed yn yr ardal;
- a fydd cynigion yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion o bob gallu, a hefyd yn cynnal cyrsiau TGAU, Lefel UG/Lefel Uwch a chyrsiau sefydledig eraill yn ôl y gofyn o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed);
- a yw'r cynigion yn debygol o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;
- i ba raddau y mae cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 a phartneriaethau dysgu lleol;
- effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion;
- sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16 safonol, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat;
- sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach neu'r gwaith i'w gwella, a hyrwyddo mynediad i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16;
- i ba raddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16;
- sut y gall cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant ddewisol y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Pan fydd cynigion yn ymwneud ag ysgol arbennig neu'n cynnwys unedau adnoddau arbenigol sydd wedi'u hatodi i ysgolion prif ffrwd, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yr effaith ar ddarpariaeth AAA;
- sut y bydd cynigion yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at wella ansawdd yr addysg a'r cymorth i blant ag AAA.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid cyfrwng iaith, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- y galw a ragwelir ymhlith rhieni am y math o ddarpariaeth a gynigir; ac
- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol, o'r math a gynigir, yn cynnig mwy neu lai na'r hyn y mae galw amdani neu'r galw a ragwelir. Pan fydd unrhyw ysgol sy'n rhan o gynnig neu y mae cynnig yn effeithio arni yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:
- asesiad o effaith y cynnig ar y Gymraeg (rhaid cynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, naill ai ym mhrif ran y ddogfen ymgynghori neu fel atodiad);
- esboniad o sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ysgol a chymeriad crefyddol dynodedig, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yr effaith ar argaeledd a mynediad i leoedd mewn ysgol â'r un cymeriad crefyddol dynodedig.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid categori, rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- effaith y newid categori ar drefniadau llywodraethu a phwerau'r corff llywodraethu mewn perthynas â pholisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm;
- unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth a chwricwlwm.

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd cynigwyr o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau yn hytrach nag un cynnig penodol, ond, ym mhob achos, rhaid i'r holl wybodaeth uchod gael ei darparu mewn perthynas â phob un o'r opsiynau a nodwyd.

Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Rhaid i gynigwyr wneud trefniadau addas hefyd i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol y bydd y cynigion yn effeithio arni (neu ran o ysgol yn achos darpariaeth sy'n unswydd ar gyfer plant ag AAA) a, lle y bo'n bosibl, blant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny. Rhaid i hyn gynnwys, man lleiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ygolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a dylai hefyd gynnwys ymgynghoriad â dysgwyr unigol pan fydd hyn ynn briodol ac yn ymarferol. Rhaid i gyrff llywodraethu helpu i hwyluso'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad.

Rhaid i'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth debygol ac yn eu galluogi i lunio barn ddeallus. Mae'r safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, dylai cynigwyr gyfeirio at y rhain a gweithredu'n unol â nhw.

https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-youngpeople/rights/ParticipationforChildrenandYoungPeople/?lang=cy

Os ymgynghorir â dysgwyr unigol, dylai cynigwyr gynhyrchu a dosbarthu fersiwn neu fersiynau o'r ddogfen ymgynghori sy'n briodol i oed/oedrannau'r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt. Dylai'r ddogfen ymgynghori esbonio'n glir i blant a phobl ifanc y gwahaniaeth rhwng y cyfnod ymgynghori a'r cyfnod gwrthwynebu ynghyd â sut a phryd y gallant wrthwynebu cynigion. Os bydd angen, dylai cynigwyr helpu plant a phobl ifanc sydd am gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

Adroddiadau ymgynghori

Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ei wefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf ddwy wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol. Dylai:

- grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi'r rhesymau i gefnogi hynny;
- nodyn ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn;
- ymateb i ymateb Estyn ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny.

Gallai'r adroddiad ar yr ymgynghoriad hefyd wneud argymhellion – er enghraifft, i weithrediaeth yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu – ynghylch sut i fwrw ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu ailwampio'r cynigion ac ailymgynghori arnynt.

Rhaid i gynigwyr sicrhau y tynnir sylw yn yr adroddiad at yr ymgynghoriad at unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r plant a'r bobl ifanc hynny.

Pan fydd y cynnig yn ymwneud â chau ysgol wledig, yn ogystal â'r camau i'w cymryd o ran yr adroddiad ymgynghori i bob ysgol, mae'r gofynion arbennig canlynol yn gymwys:

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, pan fydd y cynigydd yn adolygu'r cynnig cyn ei gyhoeddi, bydd yn ofynnol i'r cynigydd gynnal asesiad pellach o'r cynnig ac o bob un o'r opsiynau eraill a nodwyd yn y papur cynnig. Bydd hyn yn cwmpasu'r un materion â'r rheini yr oedd yn ofynnol i'r cynigydd eu hasesu wrth lunio'r cynnig:

- yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- yr effaith debygol ar y gymuned
- yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.

Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall.

Yn ei adroddiad ymgynghori, bydd gofyn i'r cynigydd esbonio ei asesiad o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd, sut mae'r asesiad hwn yn wahanol i'w asesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw opsiynau rhesymol pellach. Yn olaf, bydd gofyn i'r cynigydd gadarnhau a yw o'r farn mai gweithredu'r cynnig (yn llawn neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad.

Er nad yw Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar gynigion i gau ysgolion bach oedd â llai na 10 o ddisgyblion pan gynhaliwyd cyfrifiad y mis Ionawr cynt, dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n dwyn ymlaen gynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir ym Mhennod 1 y Cod hwn wrth ddatblygu ac ystyried cynigion. Os yw'r ysgol ar restr yr "ysgolion gwledig", mae hyn yn cynnwys bodloni'r gofynion yn 1.8, sef "Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig".

Rhaid i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad gael ei gyhoeddi'n electronig, naill ai ar wefan y cynigydd neu ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Yn ogystal â hyn, rhaid i gopïau caled fod ar gael ar gais. Rhaid i hyn ddigwydd cyn cyhoeddi unrhyw gynnig.

Rhaid i'r canlynol gael gwybod, drwy lythyr neu e-bost, bod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael:

- rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- ymgyngoreion a oedd wedi gofyn am gael eu hysbysu;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys y rheini yn Lloegr, lle bo'n briodol) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion â datganiad ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru Schoolsmanagementdivision3@llyw.cymru;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

Oni bai bod cynigwyr wedi gwneud cais am estyniad amser a'i fod wedi'i roi gan Weinidogion Cymru, rhaid cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynigion yn methu a rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd er mwyn eu hatgyfodi.

Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am estyniad amser cyn i'r cyfnod 26 wythnos ddod i ben a rhaid iddo nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad. Wrth benderfynu a ddylent gymeradwyo estyniad, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y rhesymau a roddir dros y cais, natur y cynigion ac unrhyw ffactorau eraill perthnasol. Byddai Gweinidogion Cymru yn annhebygol o gymeradwyo unrhyw gais a fyddai'n arwain at fwy na blwyddyn rhwng diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddi hysbysiad statudol.

Weithiau, cyflwynir cynigion statudol o ganlyniad i adolygiadau strategol o'r ddarpariaeth ysgolion gan awdurdodau lleol. Er ei bod hi'n arfer da ymgynghori ar adolygiadau o'r fath, rhaid i ymgynghoriad o'r fath beidio â chymryd lle'r ymgynghoriad ffurfiol sydd ei angen ar gynigion unigol yn unol â'r Cod.

Pan nad awdurdod lleol yw'r darpar gynigydd, dylai'r cynigydd fynd ati'n gynnar, h.y. cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau, i drafod ei fwriadau â'r awdurdod lleol a fyddai'n cynnal unrhyw ddarpariaeth newydd neu ddarpariaeth ddiwygiedig arfaethedig.

Ni ddylai cynigwyr gyfeirio at y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebiadau fel y cyfnod ymgynghori. Dim ond i'r cyfnod cyn y gwneir penderfyniadau terfynol i fwrw ati i gyhoeddi cynnig y mae'r term 'ymgynghori' yn gymwys.

Gall ymgyngoreion gyflwyno barn o blaid neu yn erbyn cynnig. Dylid hysbysu ymgyngoreion na chaiff sylwadau anffafriol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu trin fel gwrthwynebiadau ac, os dymunant wrthwynebu, fod angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Os bydd ymgyngoreion yn cyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn gofyn i ymateb a gyflwynir yn ystod y cam ymgynghori gael ei ystyried yn wrthwynebiad, fel arfer dylai hyn gael ei dderbyn. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynigion wneud pob ymdrech i sicrhau y bydd y rhai sydd wedi gwrthwynebu neu wedi mynegi pryder yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwybodol bod hysbysiadau statudol wedi'u cyhoeddi.

Cyhoeddi cynigion statudol

Sut y cyhoeddir cynigion: Os bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig, rhaid iddo gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad (y cyfeirir ato yn y Coed hwn fel "hysbysiad statudol"). Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol, ond nid ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yn yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd). Rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu (gweler 4.2) gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad).

Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi:

- ar wefan y cynigydd (os oes un ganddo);
- ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd;
- drwy gael ei osod wrth neu ger y brif fynedfa i unrhyw ysgol sy'n destun cynnig, neu, os oes mwy nag un brif fynedfa, bob un ohonynt;
- lle mae ysgol newydd yn cael ei sefydlu, mewn man amlwg yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol;
- drwy roi copïau o'r hysbysiad i unrhyw ysgol sy'n destun cynigion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgol (gall yr ysgolion ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost);
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno.

Yn ogystal â hyn, ar y diwrnod y caiff yr hysbysiad statudol ei gyhoeddi, rhaid anfon naill ai gopi caled o'r hysbysiad, neu e-bost yn cynnwys dolen i'r wefan berthnasol i:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru Schoolsmanagementdivision3@gov.wales ;
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

Nid yw'n ofynnol cyhoeddi'r cynnig mewn papur lleol mwyach.

Hyd y cyfnod gwrthwynebu

Mae Deddf 2013 yn darparu y caiff unrhyw un arall sydd am gyflwyno gwrthwynebiadau i gynnig trefniadaeth ysgolion y cyfle i wneud hynny. Er mwyn eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig neu mewn e-bost, a'u hanfon at y cynigydd cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu").

Cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig

Rhaid i'r hysbysiad statudol cyhoeddedig gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r personau neu'r corff sy'n cyhoeddi'r cynnig;
- dyddiad arfaethedig gweithredu'r cynnig (neu'r dyddiadau, os bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam);
- manylion sut i gael copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad
- y dyddiad olaf ar gyfer anfon gwrthwynebiadau a'r cyfeiriad y dylid eu hanfon iddo, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost perthnasol).

Yn ogystal â hyn

- rhaid i hysbysiad statudol am gynigion i sefydlu'r ysgol newydd nodi

– categori iaith arfaethedig yr ysgol yn ôl y diffiniad yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007;
– enw'r awdurdod lleol cynhaliol arfaethedig;
– lleoliad safle'r ysgol (a'r cyfeiriad post lle y bo'n briodol);
– a fydd yr ysgol yn ysgol un rhyw neu'n ysgol gymysg;
– ystod oedran yr ysgol;
– categori'r ysgol – cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, arbennig cymunedol;
– ai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol fydd yr awdurdod derbyn;
– y trefniadau arfaethedig ar gyfer cludo'r disgyblion;
– nifer y disgyblion i'w derbyn ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion ar bob cam o'r broses weithredu – pennir nifer y disgyblion i'w derbyn, sef y 'nifer derbyn', yn unol â'r cyfrifiad a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011;
– capasiti arfaethedig yr ysgol – pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 21/2011);
– ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am y math o AAA y gwneir darpariaeth ar ei gyfer;
– a fydd gan yr ysgol gymeriad crefyddol, ac os felly, natur y cymeriad hwnnw a'r corff crefyddol priodol arfaethedig;
_ os bydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer detholiad drwy allu a ganiateir gan adran 101 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolio 1998 (bandio disgyblion);
– yn achos ysgol wirfoddol newydd, a fydd y cynigion yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol neu'r hyrwyddwyr ac, os caiff y cynigion eu gweithredu gan y ddau, i ba raddau y cânt eu gweithredu gan y ddau gorff.

- Rhaid i hysbysiad statudol am gynigion i newid ysgol neu newid ei chategori nodi::

– enw a chyfeiriad yr ysgol sy'n destun cynnig;
– enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
– disgrifiad o'r newid arfaethedig neu'r newid categori;
– pan fydd y newid yn cynnwys ehangu'r ysgol, neu leihau capasiti, nifer presennol y disgyblion, capasiti'r ysgol a'r capasiti arfaethedig – pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (sef, ar hyn o bryd, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 21/2011);
– nifer y disgyblion i'w derbyn ym mhob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion neu ar bob cam o'r broses weithredu;
– yn achos newid y math o ddarpariaeth AAA, y ddarpariaeth amgen i'r disgyblion a'r effaith ar gludiant i'r ysgol;
– goblygiadau posibl y newid ar ddarpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

- Rhaid i hysbysiad statudol am gynigion i gau ysgol nodi:

– enw a chyfeiriad yr ysgol i'w chau;
– enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
– cymeriad crefyddol yr ysgol os oes ganddi un ac, os felly, y corff crefyddol priodol;
– manylion yr ysgol/ysgolion amgen y gall disgyblion ei/eu mynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau interim a chategori iaith yr ysgol/ysgolion amgen fel y'i diffinnir gan Ddogfen Wybodaeth Rhif: 023/2007;
– manylion unrhyw fesurau a gymerir i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion amgen;
– y trefniadau ar gyfer cludo'r disgyblion i ysgolion amgen.

Noder: Weithiau bydd angen i gynnig gynnwys dwy elfen ar wahân, e.e. gallai ysgol gael ei throsglwyddo i safle newydd a chael ei hehangu hefyd. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen dau gynnig, a gellir eu cynnwys mewn un hysbysiad statudol.

Mae Atodiad B yn cynnwys sawl templed enghreifftiol ar gyfer hysbysiadau statudol a all fod o ddefnydd i gynigwyr wrth iddynt lunio hysbysiad statudol.

Adroddiadau gwrthwynebu :	

O dan adran 49 o Ddeddf 2013, pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny (" yr Adroddiad Gwrthwynebu"). Rhaid gwneud hyn:

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n rhaid iddo bennu ei gynigion ei hun o dan adran 53 o'r Ddeddf (gweler 5.4 isod), cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad; ac

(b) ym mhob achos arall, cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu drwy ei roi:

i. ar wefan y cynigydd (os oes un ganddo);

ii. ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os yw'n wahanol i (i). uchod).

Yn ogystal â hyn, rhaid i gopïau caled fod ar gael ar gais.

Rhaid i'r canlynol gael gwybod, drwy lythyr neu e-bost, bod yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gael:

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n bosibl, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru (schoolmanagementdivision3@llyw.cymru);
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethau gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol presennol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant ac, yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

Cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru (adran 50 o Ddeddf 2013)

Bydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ar gyfer cynigion, o dan adran 50 o Ddeddf 2013:
(a) os ydynt yn effeithio ar addysg chweched dosbarth, neu
(b) os ydynt wedi'u gwneud gan rywun heblaw'r awdurdod lleol perthnasol a bod yr awdurdod hwnnw wedi cyflwyno gwrthwynebiad nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Mae cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth:
(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas yn unig i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol; neu
(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid a reoleiddir i ysgol a fyddai'n cynyddu neu'n lleihau'r ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion unigolion hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynnig, rhaid i'r cynigwyr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu ac anfon atynt gopïau o'r gwrthwynebiadau statudol yn ogystal â'r adroddiad gwrthwynebu a nodir ym mharagraff 5.1. Rhaid i'r cynigydd hefyd anfon at Weinidogion Cymru unrhyw gynigion sydd, yn ei dyb ef, yn gysylltiedig â'r cynigion y mae angen gwneud penderfyniad arnynt. Yna, bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu a fydd angen iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynigion eraill hyn hefyd.

Ystyrir bod cynnig yn "gysylltiedig" os byddai ei weithredu (neu os byddai peidio â'i weithredu) yn atal neu'n tanseilio gweithredu cynnig arall yn effeithol. Lle bydd cynigion yn "gysylltiedig", dylai'r penderfyniadau fod yn gydnaws.

Gall Gweinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.

Fel arfer, dim ond i newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y byddai addasiadau yn ymwneud â hwy. Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a'r corff/cyrff llywodraethu perthnasol a'r awdurdod lleol (pan nad hwy yw'r cynigwyr) a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

Cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol (adran 51 o Ddeddf 2013)
Mae angen cymeradwyo cynigion a gyhoeddir o dan adran 48, a hynny o dan adran 51 o Ddeddf 2013:
(a) os nad ydynt yn gofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru;
(b) os ydynt wedi'u gwneud gan gynigydd heblaw'r awdurdod lleol perthnasol; ac
(c) os oes gwrthwynebiad wedi'i wneud i'r cynigion ac nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Gweithdrefnau
Os bydd angen i'r awdurdod lleol gymeradwyo cynigion, rhaid i'r cynigydd hysbysu'r awdurdod lleol am gynnig y mae angen ei gymeradwyo ac anfon y dogfennau a restrir isod ato cyn pen 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu:

- copi o'r ddogfen ymgynghori;
- copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd;
- copi o'r adroddiad gwrthwynebu;
- copi o'r gwrthwynebiadau statudol;

- copïau o'r uchod mewn perthynas ag unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r cynigion y mae angen eu cymeradwyo.

Rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes angen iddynt gymeradwyo unrhyw gynigion cysylltiedig a anfonir atynt. Rhaid iddynt drafod cynigion y mae angen eu cymeradwyo yn ddi-oed, cyn belled â bod hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion. Ym mhob achos, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei benderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu). Fodd bynnag, ni fydd methu â chydymffurfio â'r amserlen honno'n effeithio ar ddilysrwydd unrhyw benderfyniad a wneir.

Rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes angen iddynt gymeradwyo unrhyw gynigion cysylltiedig a anfonir atynt.

Dim ond newidiadau fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y gall addasiadau ymwneud â hwy. Rhaid i'r awdurdod lleol beidio â gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad. Rhaid iddynt hefyd gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Os na ellir cael cydsyniad, ac os bydd yr awdurdod lleol o'r farn nad yw'r cynigion yn dderbyniol ar y ffurf y cyhoeddwyd hwy, rhaid iddo wrthod y cynigion. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddi (os nad y corff llywodraethu yw'r cynigydd).

Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar rywbeth penodol a fydd yn digwydd erbyn dyddiad penodol.

Penderfyniad gan gynigwyr (adran 53 o Ddeddf 2013)

Os nad oes angen cymeradwyo cynigion o dan adrannau 50 a 51 o Ddeddf 2013, y cynigydd fydd yn penderfynu arnynt.

O dan adran 53 o Ddeddf 2013, rhaid i'r cynigydd wneud penderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod) o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Os bydd y cynigydd yn methu â phenderfynu ar y cynnig cyn pen 16 wythnos, ystyrir ei fod wedi tynnu'r cynnig yn ôl a bydd angen iddo ailgyhoeddi'r cynigion os hoffai barhau.

Os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law i gynigion awdurdod lleol, a bod angen penderfyniad o dan adran 53 o Ddeddf 2013, rhaid i'r awdurdod lleol beidio ag ystyried y cynigion hynny gyda meddwl caeedig. Rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn perthynas â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1.3 – 1.14 o'r Cod hwn. Yn yr achosion hyn, rhaid cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu ar yr un pryd â'r penderfyniad, yn hytrach na chyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol

Os bydd angen i awdurdodau lleol gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion y daeth gwrthwynebiad i law yn eu cylch, bydd diwygiad i Atodlen 2 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu i weithrediaeth yr awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae'r weithrediaeth a/neu'r Cabinet eisoes yn gyfrifol am oruchwylio cynlluniau trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys penderfyniadau i ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion a'u cyhoeddi. Felly, bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion trefniadaeth ysgolion. Bydd y ddealltwriaeth hon, ynghyd â'u profiad mwy cyffredinol o wneud penderfyniadau a'r ffaith eu bod yn atebol yn ddemocrataidd i'r etholaeth leol, yn golygu bod y weithrediaeth yn y sefyllfa ddelfrydol i benderfynu a ddylid cymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion ai peidio.

Fodd bynnag, os byddant yn dewis gwneud hynny, ni fydd Atodlen 2 y rheoliadau perthnasol yn atal awdurdodau lleol rhag mabwysiadu prosesau amgen y cytunwyd arnynt yn lleol i wneud penderfyniadau o'r fath. Gall y rhain gynnwys creu pwyllgor penderfynu lleol mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill yn eu rhanbarth.

Os bydd awdurdodau lleol yn dewis dilyn y trywydd hwn, bydd angen iddynt ystyried yn ofalus sut y byddant yn sicrhau bod cyrff o'r fath yn gwneud penderfyniadau teg a chadarn.

Mae Atodiad D yn rhoi manylion model posibl ar gyfer pwyllgor gwneud penderfyniadau lleol.

Hysbysiad o benderfyniad

Rhaid gwneud a chyflwyno penderfyniadau (mewn perthynas â chynigion sy'n gofyn am gymeradwyaeth neu benderfyniad) ar ffurf llythyr penderfyniad. Rhaid i'r llythyr penderfyniad nodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir, gan gyfeirio at adrannau 1.3 i 1.6 y Cod hwn, a'r ffactorau penodol yn adrannau 1.7 i 1.14 (sy'n cynnwys y ffactorau ychwanegol i'w hystyried a'r gofynion mewn perthynas â chau ysgolion gwledig.

Yn ogystal, rhaid i lythyr penderfyniad ynghylch cynnig i gau ysgol a ddynodwyd yn ysgol wledig nodi pam mae'r cynigydd yn fodlon mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros lunio'r cynnig.

Rhaid cyhoeddi llythyrau penderfyniad yn electronig ar wefan y cynigydd (os oes ganddo un) ac ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol).

Rhaid i'r canlynol gael gwybod, drwy lythyr neu e-bost, bod y llythyr penderfyniad ar gael:

- Rhieni (a darpar rieni, lle y bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff ysgolion sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n bosibl, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- Gweinidogion Cymru (schoolmanagementdivision3@llyw.cymru);
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddl (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethau gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol presennol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;

• yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol â buddiant ac, yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; • yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac • yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.	

This page is intentionally left blank

Opsiynau Cynradd Cyfrwng Cymraeg a Goblygiadau Refeniw

Gwerthusiad o Opsiynau

Cynhaliwyd gwerthusiad o opsiynau cyfrwng Cymraeg yn unol â'r achos busnes a gofynion cyn yr ymgynghoriad, gan asesu sut mae pob opsiwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion y buddsoddiad, ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant a meini prawf trawsnewid. Mae Ffigur 1 islaw yn rhoi trosolwg o'r opsiynau ynghyd â'r cryfderau a gwendidau yn gysylltiedig gyda phob opsiwn.

Ffigur 1			
Opsiwn i	**Opsiwn ii**	**Opsiwn iii**	**Opsiwn iv**
Cadw'r sefyllfa fel y mae	Gwneud y lleiafswm – lleoli ar safle ysgol cyfrwng Saesneg bresennol gyda chapasiti ar gyfer darpariaeth egin Gymraeg (yn cynnwys gofal plant, grwpiau meithrin a dosbarth derbyn, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol yn agor ar gyfer cynnydd disgyblion bob blwyddyn wedi hynny)	Lleoli'r ysgol Gymraeg ar safle ysgol gynradd bresennol gyda chapasiti allanol ar gyfer yr adeiladau a dosbarthiadau dros dro (yn cynnwys gofal plant, grwpiau meithrin a dosbarth derbyn, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol yn agor ar gyfer cynnydd disgyblion bob blwyddyn wedyn)	Sicrhau safle newydd ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg a sefydlu darpariaeth egin mewn adeiladau dros dro ynghyd â thir i adeiladu ysgol gynradd 210 lle gyda meithrinfa. (Daw'r cyfleusterau gofal plant a'r grwpiau meithrin a dosbarth derbyn yn weithredol ym mis Medi 2021, gyda grwpiau blwyddyn ychwanegol yn agor ar gyfer cynnydd disgyblion bob blwyddyn wedyn)
Cryfderau a Gwendidau	**Cryfderau a Gwendidau**	**Cryfderau a Gwendidau**	**Cryfderau a gwendidau**
Nid oes unrhyw gryfderau yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Ni fyddai'r cynnig yn sicrhau ychwanegedd yn nhermau darpariaeth addysg Gymraeg ac ni fyddai'n cefnogi cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn unol â nod Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Byddai'r cynnig hwn yn gostwng goblygiadau refeniw yn y tymor byr – er nid yn sylweddol felly. Gallai'r opsiwn hwn arwain at gostau cyfalaf uwch yn y tymor canol i'r hirdymor, oherwydd costau ailwampio, costau estyniadau a/neu adeiladu newydd.	Byddai'r cynnig hwn yn gostwng goblygiadau refeniw yn y tymor byr – er nid yn sylweddol felly. Gallai'r cynnig hwn roi cyfle i sicrhau integreiddio a gwaith partneriaeth gydag ysgol bresennol. Mae angen ymchwiliadau safle manwl i gadarnhau os yw'r datblygiad yn hyfyw ond gallai	Y cynnig hwn – heb gynhyrchu incwm ac adferiad costau gofal plant – sydd â'r goblygiadau uchaf o ran refeniw. Byddai'r cynnig hwn yn trochi'n llwyr ac yn cyflawni telerau ac amodau y Grant Cyfrwng Cymraeg; gan hefyd greu ychwanegedd a sicrhau cyflenwi deilliannau'n gysylltiedig â Chynllun Strategol Cymraeg

Ni fyddai'n ymdrin â'r galw cudd a ddynodwyd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn Nhredegar/ Cwm Sirhywi. ***Ni ystyrir fod hwn yn opsiwn hyfyw**	Nid yw'r opsiwn yn gynaliadwy yn y tymor canol i'r hirdymor, efallai na fyddai'n addas ar gyfer estyniad ac ni fyddai'n trochi'n llwyr. Gallai'r gwaith i greu cyfleusterau addas ar gyfer model twf egin arwain at gynnydd mewn lleoedd gwag yn y tymor canol i'r hirdymor. Mae goblygiadau rhaglenni a phroffilio ariannol yn gysylltiedig gyda gweithio ar safleoedd ysgol byw, a allai arwain at oedi a/neu gostau cynyddol. Mewn awdurdodau eraill e.e. Caerdydd lle defnyddiwyd modelau cyd-leoli, cawsant effaith negyddol yn arbennig ar ddisgyblion Cymraeg gyda'r datblygiad egin yn eilaidd i'r ysgol cyfrwng Saesneg. Roedd y model wedi effeithio ar staff a disgyblion yn nhermau ysbryd, hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn. ***Ni ystyrir fod hwn yn opsiwn hyfyw**	ddangos nad yw'r tir yn addas ar gyfer ei ddatblygu. Mae goblygiadau rhaglenni ac ariannol yn gysylltiedig gyda gweithio ar safleoedd ysgol byw, a allai arwain at oedi a/neu gostau uwch. Gallai'r opsiwn beidio trochi'n llwyr, pe byddai gofodau hamdden, adnoddau a gofodau eraill yn cael eu rhannu drwy'r ysgol. ***Mae angen ymchwiliad manwl pellach er mwyn asesu manteision a hyfywedd**	mewn Addysg y Cyngor (2017-20). Gellid datblygu'r ysgol fesul cam a/neu ei datblygu yn unol gydag amcanestyniadau a galw disgyblion. Mae cyfleoedd cynhyrchu incwm ar gael e.e. trwyddedu, cyd-leoli ac yn y blaen, a allai ostwng goblygiadau refeniw a gwarged. ***Mae'r opsiwn hwn yn hyfyw, fodd bynnag, ef sydd â'r goblygiadau ariannol refeniw uchaf.**

Cyllid ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg newydd

Cefndir

1. Mae cyfrifiadau dechreuol yn dangos bod goblygiadau cyllideb refeniw ar gyfer ysgol gynradd adeilad newydd (yn seiliedig ar ddisgyblion ychwanegol, yn hytrach na throsglwyddo disgyblion presennol o ysgolion presennol). Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd dadleoli dysgwyr presennol fydd yn gostwng gofyniad cyllid y cynnig, ond mae ganddo ganlyniadau ar gyfer cyllidebau ysgolion presennol.
2. Yn seiliedig ar dderbyn disgyblion fesul cam, erbyn blwyddyn 7 (pan fydd yr ysgol yn gweithredu'n llawn ac yn seiliedig ar dybiaeth o ddysgwyr newydd yn ymuno â'r ysgol), mae'r gofyniad cyllid ychwanegol yn £941,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar Fformiwla Cyllid Teg 2020/2021).
3. Mae tri opsiwn arall yn cael eu hystyried:
    - **Opsiwn 1** – gwneud dim
    - **Opsiwn 2** – lleoli'r ysgol newydd o fewn adeilad ysgol presennol
    - **Opsiwn 3** – lleoli ysgol newydd ar safle ysgol bresennol heb gapasiti allanol.
4. Mae'r nodyn hwn yn cymharu goblygiadau opsiynau 2 a 3 ar y gyllideb refeniw, o gymharu â'r opsiwn sylfaen (a elwir nawr yn opsiwn 4 – opsiwn adeilad newydd).
5. Cynhaliwyd asesiad safle manwl wrth ymchwilio'r safle mwyaf addas ar gyfer ysgol newydd, a gellir ei ddarparu os oes angen – rhoddir manylion y crynodeb islaw**:**

    Cynhaliodd Addysg, Cynllunio, Gwasanaethau Technegol a Stadau werthusiad o safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn Nhredegar/Cwm Sirhywi, er mwyn dynodi safleoedd a allai ddarparu ar gyfer datblygu ysgol newydd. Ystyriodd y Cyngor nifer o safleoedd i ddarparu ar gyfer y datblygiad yn cynnwys:

    - **Chartist Way** – Safle gyda photensial cryf, gyda rhai cyfyngiadau y gellid eu goresgyn.
    - **Cae Deighton Stockton Way** – Rhai cyfyngiadau i'w goresgyn a gofod gwyrdd a warchodir. Mae'r safle hefyd yn agos iawn at ysgol cyfrwng Saesneg bresennol, a allai greu dadsefydlogi.
    - **Parc Busnes Tredegar** – Anaddas a gyda chyfyngiadau sylweddol i'w goresgyn.
    - **Caeau Chwarae yn Ysgol Gyfun Tredegar** – Anaddas a gyda chyfyngiadau sylweddol i'w goresgyn.

    Wrth ystyried mynediad, ecoleg, archaeoleg, risg llifogydd, seilwaith, cyflenwadau a gwasanaethau, penderfynwyd mai'r safle fwyaf addas ar gyfer yr ysgol – yn aros ymchwiliad pellach - fyddai Chartist Way. Pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddid yn dechrau ar ymchwiliadau manwl o'r safle; fodd bynnag, mae gan y Cyngor wybodaeth dda o'r hyn fyddai ei angen i sicrhau y gellir datblygu'r safle.

Goblygiadau i'r gyllideb refeniw

6. Gallwn dybio y bydd:
    - cyllid APWU yr un fath ar gyfer opsiynau 2, 3 a 4.
    - Cyllid "**ffactorau eraill**" fydd yr unig amrywiad mewn cyllid rhwng yr opsiynau.

- Bydd Opsiwn 2 yn seiliedig mewn ysgol bresennol, gydag arwynebedd yn addas ar gyfer ysgol gynradd 210 lle ac ni chaiff cyllid ei weithredu ar gyfer eitemau tebyg i gynnal a chadw adeilad, gwasanaeth gofalwr, glanhau, ynni a threthi (gan y bydd yr ysgol bresennol yn derbyn cyllid ar gyfer y meysydd hyn)
- Ar gyfer opsiwn 3, yn absenoldeb arwynebedd hysbys, mae'r costau yn seiliedig ar yr ysgol o fewn ardal Tredegar gyda thir allanol y gellid ei ddatblygu.
- Mae'r tîm Trawsnewid Addysg wrthi'n cynnal ymchwiliadau i drwyddedu ac opsiynau defnydd, a allai wrthbwyso pwysau refeniw ar gyfer yr ysgol h.y. cydlynu gyda Chyngor Dinas Casnewydd ar gynnig tebyg sy'n mynd rhagddo yn eu hardal.
- Byddai Opsiynau 3 a 4 angen targed cynhyrchu incwm o tua £100,000, na fyddai'n cael ei gynnwys yn y gofynion cyllid refeniw ar gyfer y Cyngor ond a fedrai fod ag effaith gadarnhaol ar y gwarged/diffyg ar gyfer yr ysgol newydd. Mae'r opsiynau trwyddedu safle a allai gyflawni'r targed hwn fel sy'n dilyn:
    - Sefydlu gosodiad gofal plant gyda'r Cyngor i dalu am y costau rhedeg a'r rhent – tua £20,000 y flwyddyn (mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ystafell 100 metr sgwâr yn cynnwys ystafell gweithgareddau a thoiledau, ynghyd â chostau rhentu)
    - Mae gan y Cyngor brotocol trwyddedu yn ei le i gefnogi a sicrhau defnydd trydydd parti o adeiladau ysgol, ac mae'r galw am hynny'n cael ei ymchwilio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mewn trafodaeth ddechreuol gyda chydweithwyr yn yr adran Adfywio cafodd y cyfleoedd dilynol eu dynodi ar gyfer eu hymchwilio ymhellach:
        - Mae Canolfan Eden yn edrych am ofod ar gyfer canolfan addysg ychwanegol o fewn ardal Glynebwy a/neu Dredegar.
        - Mae gan Goleg Gwent ddiffyg capasiti o fewn eu hadeilad presennol a defnyddiant y Swyddfeydd Cyffredinol ac yn y blaen ar gyfer gweithgareddau ac arholiadau myfiwyr.
        - Gofod swyddfa Hamdden Aneurin.
        - Mewn ymgynghoriad gyda busnesau, dynodwyd fod diffyg gofod ar gyfer darparwyr hyfforddiant.

7. I grynhoi, ar gyfer blynyddoedd 1-7 (gyda blwyddyn 1 yn rhan o flwyddyn), mae'r gyllideb refeniw ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer opsiynau 2-4 fel sy'n dilyn:

- **Opsiwn 2** - £237,000 yn codi i £780,000 y flwyddyn
- **Opsiwn 3** - £261,000 yn codi i £823,000 y flwyddyn
- **Opsiwn 4** - £327,000 yn codi i £941,000 y flwyddyn

8. Erbyn blwyddyn 7, felly, bydd opsiwn 2 angen £161,000 yn llai o gyllid bob blwyddyn, o gymharu ag opsiwn 4.

9. Erbyn blwyddyn 7, felly, bydd opsiwn 3 angen £118,0900 yn llai o gyllid bob blwyddyn, o gymharu ag opsiwn 4.

I gloi, nid yw'r gofynion cyllid ar gyfer y 3 opsiwn yn sylweddol wahanol, yn bennaf oherwydd trefniadau fformiwla cyllid AWPU.

7B. Os tybiwn y daw holl boblogaeth yrr ysgol ysgolion presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, bydd sefyllfa cyllid Cyllideb Ysgolion Unigol yn:

Bydd rhai ysgolion unigol presennol yn derbyn llai o gyllid, oherwydd gostyngiad mewn nifer disgyblion.

Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn derbyn mwy o gyllid, oherwydd cynnydd mewn nifer disgyblion.

Os tybiwn, felly, na fydd unrhyw ofyniad am gyllid ychwanegol ar gyfer elfen AWPU, bydd gofyniad cyllid cynyddol ar gyfer yr elfen 'ffactorau eraill'.

8. I grynhoi, ar gyfer blynyddoedd 1-7 (gyda blwyddyn 1 yn rhan o flwyddyn) y gyllideb refeniw ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer opsiynau 2-4 yw:
   - **Opsiwn 2** - £176,000 yn codi i £317,000 y flwyddyn
   - **Opsiwn 3** - £200,000 yn codi i £360,000 y flwyddyn
   - **Opsiwn 4** - £265,000 yn codi i £478,000 y flwyddyn
9. Erbyn blwyddyn 7, felly, bydd opsiwn 2 angen £161,000 yn llai o gyllid fesul blwyddyn o gymharu ag opsiwn 4.
10. Erbyn blwyddyn 7 felly, bydd opsiwn 3 angen £118,000 yn llai o gyllid fesul blwyddyn, o gymharu ag opsiwn 4.
11. Ni chafodd cyfrifiad ei wneud ar yr effaith ar y gyllideb PRC ar gyfer yr ysgolion hynny y mae gostyngiad mewn nifer disgyblion yn effeithio arnynt.

This page is intentionally left blank

DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG - ANGEN CYLLID YCHWANEGOL
YN SEILIEDIG AR FFORMIWLA ARIANNU TEG 2020/2021

Model gwreiddiol

100% o ddisgyblion newydd yn derbyn

	blwyddyn 1 (7/12)	**blwyddyn 2**	**blwyddyn 3**	**blwyddyn 4**	**blwyddyn 5**	**blwyddyn 6**	**blwyddyn 7**
	£k	**£k**	**£k**	**£k**	**£k**	**£k**	**£k**
opsiwn 1							
opsiwn 2	237	469	534	596	656	718	780
opsiwn 3	261	510	575	637	698	761	823
opsiwn 4	327	622	688	752	814	878	941

Model diwygiedig

100% o ddisgyblion presennol

opsiwn 1							
opsiwn 2	176	301	304	307	311	314	317
opsiwn 3	200	342	346	349	353	356	360
opsiwn 4	265	454	459	464	468	473	478

dadansoddiad sensitifrwydd

50% o ddisgyblion presennol
50% o ddisgyblion newydd yn derbyn

opsiwn 2	207	385	419	452	483	516	549

opsiwn 3	230	426	460	493	526	559	592
opsiwn 4	296	538	574	608	641	675	710

30% o ddisgyblion presennol
70% o ddisgyblion newydd yn derbyn

opsiwn 2	219	418	465	509	553	597	641
opsiwn 3	243	459	506	551	595	639	684
opsiwn 4	308	571	619	665	710	756	802

70% o ddisgyblion presennol
30% o ddisgyblion newydd yn derbyn

opsiwn 2	194	351	373	394	414	435	456
opsiwn 3	218	392	414	436	457	478	499
opsiwn 4	283	504	528	550	572	595	617

Executive Committee and Council only
Date signed off by the Monitoring Officer: N/A
Date signed off by the Section 151 Officer: N/A

Committee: **Education and Learning Scrutiny Committee**

Date of meeting: **15th December 2020**

Report Subject: **Blaenau Gwent Welsh in Education Strategic Plan 2019/20 and Welsh Medium Grant Proposal Progress Report**

Portfolio Holder: **Education and Learning Portfolio – Cllr. Joanne Collins**

Report Submitted by: **Lynn Phillips, Corporate Director of Education**

Reporting Pathway								
Directorate Management Team	**Corporate Leadership Team**	**Portfolio Holder / Chair**	**Audit Committee**	**Democratic Services Committee**	**Scrutiny Committee**	**Executive Committee**	**Council**	**Other (please state)**
25.11.20	25.11.20	27.11.20			15.12.20	15.12.20		

1. **Purpose of the Report**

1.1 The purpose of the report is to provide Education and Learning Scrutiny Committee with the opportunity to scrutinise progress in relation to the Blaenau Gwent Welsh in Education Strategic Plan (WESP) 2017-2020 and the associated Welsh medium grant proposal.

2. **Scope and Background**

2.1 Section 84 of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013, requires each Council to prepare a Welsh in Education Strategic Plan (WESP).

2.2 The purpose of the WESP is to set out the Council's strategic approach and direction in the development and delivery of Welsh-medium provision and Welsh education. The plan was approved by the Executive Committee and signed by the Corporate Director in 2016. The WESP is underpinned and informed by Welsh Government's current Welsh-medium Education Strategy (April 2010), along with the policy statement for 2015-16.

2.3 The Welsh Government vision is to secure one million Welsh speakers by 2050. To achieve this, they believe that the following key areas require address:

- more children in Welsh-medium education;
- better planning in relation to how people learn the language;
- easier-to-access opportunities for people to use the language;
- a stronger infrastructure and a revolution to improve digital provision in Welsh; and,
- a change in the way we speak about the language.

2.4 According to the most recent census (2011), there are approximately 562,000 Welsh speakers in Wales. The aim of the national strategy is to almost double the number of Welsh speakers by the middle of the century.

2.5 The Blaenau Gwent Welsh in Education Strategic Plan 2017-20 (please refer to **Appendix 1** for more information), is directly aligned to both the Welsh Government's and the Council's Welsh Language frameworks and strategies. The strategic priorities highlighted within the BG WESP document can be summarised as follows:

- Raise the profile and levels of participation for Welsh-medium education across the County Borough by 2020, to contribute to the vision for one million speakers by 2050.
- Increase the early year's provision offer to stimulate parental demand to enable growth across the County Borough.
- Increase transition rates from Welsh-medium nursery provision to Ysgol Gymraeg Bro Helyg by 50% in 2020.
- Work regionally with South East Wales Local Authorities to secure places for Blaenau Gwent learners in Welsh-medium secondary provision between 2017-2020 and beyond.
- Improving Welsh medium learner outcomes by 2020 so that learners raise aspirations and improve their life chances.

2.6 The Blaenau Gwent WESP was formally approved by Welsh Government in March 2018. Blaenau Gwent was the first and only Council within the SEWC region at the time to have the plan approved with no further amendments.

2.7 Alongside a review of the WESP, the Blaenau Gwent Welsh Education Forum (WEF) structure, membership and associated documentation are reviewed and strengthened annually. (please refer to **Appendix 2** – WEF Terms of Reference for more information).

2.8 Due to the global COVID-19 pandemic, 3 out of 4 WEF meetings took place throughout the course of the academic year 2019/20 with membership, attendance and engagement sustained to a high standard throughout. Partners have commented on the effectiveness of the Forum, which has in turn had a positive impact upon membership, attendance and outcomes.

2.9 In addition, the Education Transformation Manager is the chair of the Regional Planning of School Places and Demand Sub-group of the WEF Strategic Forum. The group met twice out of a possible 4 meetings throughout the course of the 2019/20 academic year. The focus of the group is as follows:

- Co-ordination of Welsh-medium demand survey arrangements
- Consultation outcome and analysis
- Promotion and communication
- Regional review of secondary provision, Welsh medium grant and Band B proposals
- Consultation and promotion strategy/plan

2.10 The Council has worked with neighbouring authorities via the aforementioned forum, to develop a booklet promoting the benefits of being bilingual. The document is reviewed annually and shared with the families of prospective pupils. The booklet is also linked to the admissions process and

is shared via health professionals, early year's settings, schools and other relevant partners/professionals, in order to promote Welsh language opportunities and education locally. A copy of the booklet is also available via the Council's website.

